

Datganiad Preifatrwydd

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw'r rheolydd ac mae'n gyfrifol am eich data personol (cyfeirir ato fel "APCE", "ni", "ninnau" neu "ein" yn y datganiad preifatrwydd hwn).

Defnyddio a storio eich gwybodaeth bersonol

Pan fyddwch yn cyflenwi unrhyw wybodaeth bersonol i ni, mae gennym rwymedigaethau cyfreithiol tuag atoch yn y modd yr ydym yn ymdrin â'r data hwnnw. Rhaid inni gasglu'r wybodaeth yn deg, hynny yw, rhaid i ni esbonio'r pwrpas a'r sail gyfreithiol i ni ei defnyddio (bydd hyn wedi'i nodi ar y tudalennau gwe lle gellir gofyn am wybodaeth neu unrhyw ffurflen y gofynnir i chi ei chwblhau). Yn gyffredinol, rydym yn prosesu data personol mewn perthynas â chyflawni ein gwasanaethau (ein tasg gyhoeddus) neu mewn perthynas â buddiannau dilys yr unigolyn neu APCE (fel rheolydd data). Mae rhagor o wybodaeth am y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu unrhyw ddata a ddarparwyd gennych gan APCE i'w gael gan ein Swyddog Diogelu Data trwy gyfrwng y manylion cyswllt isod.

Mae unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir gennych yn cael ei storio mewn cronfeydd data sy'n eiddo i APCE neu sefydliad a ddefnyddir gan APCE i ddarparu gwasanaethau ar-lein ar ei ran. Rhaid i ni ddweud wrthyich a ydym am drosglwyddo'r wybodaeth i unrhyw un arall. Yn gyffredinol, dim ond o fewn APCE a chan ei ddarparwyr gwasanaethau y bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei defnyddio. Ni fydd fyth yn cael ei chyflenwi i unrhyw un y tu allan i APCE heb gael eich caniatâd chi yn gyntaf, oni bai ei bod yn rhwymedigaeth arnom neu fod gennym ganiatâd yn ôl y gyfraith i ddatgelu hynny.

Byddwn yn dal eich gwybodaeth bersonol ar ein systemau cyhyd â'ch bod yn derbyn y gwasanaeth yr ydych wedi gofyn amdani, a'i dileu os yw'r pwrpas wedi cael ei fodloni neu eich bod wedi gofyn i ni wneud hynny, oni bai ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i ni ei chadw. Rheolir y drefn o gadw data yn ôl Polisi Cadw a Gwaredu APCE. Gellir ei weld yma :- [Polisi Cadw a Gwaredu APCE](#)

Yn ogystal, mae gennych yr hawliau canlynol o dan y gyfraith diogelu data:

- Yr hawl i gael gwybod - pan fyddwn yn casglu eich data, byddwn yn dweud wrthyich pam a sut yr ydym yn bwriadu ei ddefnyddio

- Yr hawl i gael mynediad - O dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RHDDC), mae gennych yr hawl i gael:
 - cadarnhad bod eich data yn cael ei brosesu; a
 - mynediad at eich data personol

Mae manylion ar sut i gael eich data personol ar ein gwefan:

[Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000](#)

- Yr hawl i unioni - Mae gennych hawl i gael data personol wedi'i gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn.
- Yr hawl i ddileu - Mae gennych yr hawl i ofyn am ddileu neu gael gwared ar ddata personol lle nad oes rheswm cryf dros ei brosesu'n barhaus.
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu - mae gennych hawl i 'flocio' neu osgoi prosesu data personol. Pan fo trefniadau prosesu yn cael eu cyfyngu, gallwn storio'r data personol, ond ni chaiff ei brosesu ymhellach. Gallwn gadw digon o wybodaeth am yr unigolyn i sicrhau bod y cyfyngiad yn cael ei barchu yn y dyfodol.
- Yr hawl i gludo data - Gallwch chi gael ac ail ddefnyddio'ch data personol at eich dibenion eich hun ar draws gwahanol wasanaethau. Mae'r hawl hon yn eich galluogi i symud, copïo neu drosglwyddo data personol yn hawdd o un amgylchedd TG i un arall mewn modd diogel, heb rwystr o ran defnyddioldeb.
- Yr hawl i wrthwynebu - Mae gennych hawl i wrthwynebu i:
 - brosesu yn seiliedig ar fuddiannau cyfreithlon neu berfformiad tasg er budd / ymarfer y cyhoedd o awdurdod swyddogol (gan gynnwys proffilio);
 - marchnata uniongyrchol (gan gynnwys proffilio); a
 - Phrosesu at ddibenion ymchwil gwyddonol / hanesyddol ac ystadegau;
 - Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd. - Mae'r gyfraith yn darparu mesurau diogelu i chi yn erbyn y risg y caiff penderfyniad a allai fod yn niweidiol ei gymryd heb ymyrraeth ddynol.

I arfer unrhyw un o'r hawliau uchod, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data, trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Pan fyddwn yn prosesu data gyda'ch caniatâd, mae gennych hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. Gallwch chi wneud hyn trwy anfon e-bost atom yn fan hyn SDD@eryri.llyw.cymru

Efallai y byddwch hefyd eisiau gwneud cwyn ynghylch sut yr ydym yn prosesu'ch data gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae manylion ar sut i wneud cwyn ar gael ar <https://ico.org.uk> Fodd bynnag, byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i fynd i'r afael â'ch pryderon cyn i chi fynd at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, felly cysylltwch â ni yn y lle cyntaf.

Digwyddiadau, E-Gylchlythyrau ac Arolygon Ar-lein

Rydym ni'n defnyddio darparwr trydydd parti (mail chimp) i ddanfon ein e-gylchlythyr misol. Rydym yn casglu ystadegau ynghylch agor e-byst a chliciau gan ddefnyddio technolegau safonol y diwydiant. Am ragor o wybodaeth, gweler <https://mailchimp.com/legal/privacy/>

Lle mae'n gydnaws â'r defnydd a nodir ar gyfer eich data, efallai y byddwn hefyd yn prosesu hyn drwy gyfarpar darparwr trydydd parti ar-lein. Gweler <https://www.surveymonkey.com/mp/policy/privacy-policy/> am ragor o wybodaeth.

Cwcis

Mae gwybodaeth am ein defnydd o gwcis ar gael yn ein [Telerau ac Amodau](#)

Defnyddwyr 16 ac iau

Nid ydym yn casglu data yn ymwneud â phlant yn fwriadol. Os ydych chi'n 16 oed neu'n iau, rhowch ganiatâd eich rhiant / gwarcheidwad ymlaen llaw pryd bynnag y byddwch chi'n darparu gwybodaeth bersonol ar wefan APCE. Ni chaniateir i ddefnyddwyr roi gwybodaeth bersonol i ni heb y caniatâd hwn.

Cysylltwch am ragor o wybodaeth am brosesu data

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw'r corff cyfrifol (Rheolydd Data) am wybodaeth a roddwyd i ni. Ein manylion cyswllt yw

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6LF

SDD@eryri.llyw.cymru